# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De o Bwll-Glas, Sir Ddinbych) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu wrth i waith i ailosod wyneb y gerbytffordd gael ei wneud ar Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Birkenhead (A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") i'r de o Bwll-glas yn Sir Ddinbych.

Disgwylir i'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol ar eu cyfer, ddod i rym am 07:30 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 a disgwylir iddynt fod yn weithredol rhwng 07:30 o'r gloch a 18:00 o'r gloch tan 29 Mehefin 2012 neu nes i'r arwyddion traffig dros dro gael eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r de o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Fferm Pencoed hyd at bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain at Nantclwyd Hall.

Dim ond yn ystod gwaith confoi ar unrhyw ddiwrnod penodol y bydd y terfyn cyflymder o 10mya yn gymwys.

ii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod yn ystod gwaith confoi.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## The A494 Trunk Road (South of Pwll-Glas, Denbighshire) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibition) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst carriageway resurfacing works are undertaken on the Dolgellau – South of Birkenhead Trunk Road (A494) (hereinafter referred to as "the trunk road") south of Pwll-glas in the County of Denbighshire.

The restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 07:30 hours on 11 June 2012 and are expected to operate between 07:30 hours and 18:00 hours until 29 June 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the trunk road that extends in a southerly direction from the centre-point of its junction with the road leading to the property known as Pencoed Farm to the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Nantclwyd Hall.

The 10 mph speed limit will only apply when convoy working is in force on any given day.

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified above whilst convoy working is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE